

## Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Ebrill 2014

Presennol, Gareth Wynne Cadeirydd, Michael Hughes, Gwawr Jones, Medwen Hughes, Marion Betteney, Janet Charlton, Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.  
Ymddiheuriad, Terry Bullock, Karen Pugh, Gareth Parry, Jim Boughton.

Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Fawrth 2014

Materion yn Codi ;

#### [1] Yr Heddlu

Eglurodd y clerc bod gair wedi ei dderbyn na fedrai'r heddlu fod yn bresennol, ond nad oedd unrhyw fater o bryder yn lleol.

#### [1.1] Neidio o Bont-y-Pair

Dyweddodd y Cyng. Elisabeth Roberts iddi ynghyd a'r Cyng Marion Betteney a'r clerc fynychu cyfarfod gyda'r heddlu. Nodwyd bod yr heddlu yn paratoi adroddiad ar gyfer cynllun gweithredu.

#### [1.2] Maes Parcio Pont-y-Pair/Consesiwn Parcio

Adroddodd y clerc nad oedd dim gair pellach gan Mr Wilkinson, cytunodd y Cyng Elisabeth Roberts i gysylltu gyda Mr Wilkinson.

#### [1.3] Gwli gyferbyn a Swyddfa'r Bost

Nodwyd bod trafferthion yn parhau. Y clerc i gysylltu gyda'r adran briffyrdd.

#### [1.4] Cynllun Hydro Electrigr Rhaeadr Conwy

Penderfynwyd anfon at RWE Innogy UK yn datgan diddordeb gan y Cyngor i fwriad y cwmni i gefnogi ymgyrchoedd lleol.

#### [1.5] Gwaith Celf Ffordd yr Orsaf

Cyfeiriodd y clerc at wybodaeth gan y Parc Cenedlaethol sef, bydd rhaid i gais cynllunio adolygol gael ei wneud ar gyfer y gwaith celf sydd wedi ei osod heb ganiatâd.

Y Brif Agenda

#### [1.6] Marchnata Stryd, Betws-y-Coed

Croesawyd Mr John Donnelly Swyddog Trwyddedu Cyngor B S Conwy. Esboniodd bolisi'r Cyngor Sir ynglŷn â marchnata ar y stryd. Yn dilyn, gohiriwyd y cyfarfod a rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd [siopwyr lleol] amlinellu eu pryderon.

Cadarnhaodd bod masnachwr stryd sydd yn gweithredu'n lleol wedi ei gynghori nad oedd i farchnata yn unrhyw leoliad tu hwnt i ganiatâd ei drwydded.

Yn dilyn trafodaeth gyffredinol, aeth y cyfarfod ymlaen a diolchwyd i Mr Donnelly am ei bresenoldeb.

#### [1.7] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddosbarthwyd] a wnaed yn ystod Mawrth 2014.  
[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mawrth 2014.

[1.8] Adolygiad Ffiniau Cyngorau Cymuned a Threfniadau Etholiadol. Cynigion Terfynol  
Nodwyd argymhellion yr adroddiad i leihau'r nifer o gynghorwyr ar gyfer Cymuned Betws-y-Coed o 11 i 8

[1.9] Llwybr Cae Llan  
Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i geisio cynhaliaeth ar y llwybr.

[2] Moduron wedi ei gadael  
Deallwyd bod 2 fodur wedi ei gadael ers tro ar fin ffordd allt Coedcynhelir. Y clerc i gysylltu gyda'r heddlu

[2.1] Rhyddhad Treth/Neuadd Goffa  
Eglurodd y clerc bod y cais am ryddhad treth elusennol wedi ei ganiatáu fel a ganlyn, 80% yn orfodol a 20% yn ôl disgrisiwn.

Cadeirydd \_\_\_\_\_